# CYFARFOD PENDERFYNIADAU AELOD Y BWRDD GWEITHREDOL DROS DIOGELU'R CYHOEDD

**DYDD** Gwener, 17 Ionawr 2020

**YN BRESENNOL: Y Cynghorydd** P.M. Hughes (Aelod o’r Bwrdd Gweithredol).

**Roedd y swyddogion canlynol yn bresennol:**
R. Edgecombe, Rheolwr y Gwasanaethau Cyfreithiol
M.S. Davies, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

Ystafell Bwyllgor Gwasanaethau Democrataidd, Neuadd y Sir, Caerfyrddin:
10.00 yb - 10.40 yb

**1. DATGAN BUDDIANNAU**

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau personol.

**2. COFNOD PENDERFYNIADAU - 26 GORFFENNAF, 2019**

**PENDERFYNWYD llofnodi bod cofnod penderfyniadau'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 26 Gorffennaf 2019 yn gofnod cywir.**

**3. Y DDEDDF RHEOLEIDDIO PWERAU YMCHWILIO**

Bu'r Aelod o'r Bwrdd Gweithredol yn ystyried adroddiad a oedd yn rhoi golwg gyffredinol ar y gweithgaredd cudd-wylio yr oedd yr Awdurdod wedi ymgymryd ag ef yn 2019, ynghyd â'r gweithdrefnau ysgrifenedig ynghylch y dull o gynnal cudd-wylio gan staff a defnyddio cudd-wylio o'r fath.
Yr oedd yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth ynghylch y meysydd canlynol:

- Gwyliadwriaeth Gyfeiriedig
- Ffynonellau Cuddwybodaeth Ddynol;
- Rhyng-gipio Data Cyfathrebu;
- Gweithgaredd Cudd-wylio Anawdurdodedig
- Adroddiadau Ystadegol;
- Arolygiad gan y Comisiynydd Pwerau Ymchwilio (IPC)

Nododd yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol nad oedd unrhyw awdurdodiadau wedi'u cyflwyno dan y Ddeddf hon yn ystod 2019 ynghylch y dull o gynnal cudd-wylio o'r fath, ffynonellau cuddwybodaeth ddynol a rhyng-gipio data cyfathrebu.

**PENDERFYNWYD:**

**3.1 nodi'r gweithgaredd cudd-wylio yr oedd y Cyngor wedi ymgymryd ag ef yn 2019;**

3.2 **cymeradwyo'r newidiadau i'r weithdrefn gorfforaethol ar gyfer 2020 ynghylch cudd-wylio o'r fath.**

______________________________ __________________

**AELOD O’R BWRDD GWEITHREDOL** **DYDDIAD**